



Cymun Bendigaid ar Gân

**Yr Ail Sul cyn y Grawys**


**Secsagesima**

12 Chwefror 2023 am 9.15am




Cadeirlan  
Deiniol Sant  
*ym Mangor*

Saint Deiniol's  
Cathedral  
*in Bangor*



# Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.



Rydych chi'n sefyll rwan  
lle safodd Deiniol bron i  
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn  
525, bu iddo gynnwll o'i  
gwmpas gymuned lawn  
ffydd, gobaiith a chariad,  
gan godi o'i chwmpas  
ffens gyll—y **bangor**  
gwreiddiol—iddi'n gysgod  
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch  
chwithau, hefyd, eich  
cofleidio yma gan yr un  
ffydd, gobaiith a chariad  
a gyhoeddir gennym  
heddiw ac sy'n ein  
cyfareddu o hyd.

## Yn Cymun hwn...

Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd â  
Christ mewn bara a gwin, ei Gorff a'i  
Waed ef gyda ni.

**1** Wrth inni ymgynnull, byddwn  
yn paratoi ein hunain i gwrdd â  
Christ trwy gyffesu ein pechodau  
— y ffyrdd yr ydym wedi galaru Duw  
yn ein bywydau — ac yn derbyn  
gollyngdod, sef sicrwydd o faddeuant  
Duw.

**2** Yna rydyn ni'n gwranddo ar  
ddarlenniadau o'r Beibl, gan  
ganfod yno arweiniad, her,  
cysur a newydd da gan Dduw.  
Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd  
yn y Drindod Sanctaidd a chynnig i  
Dduw ein gweddi dros bawb mewn  
angen.

**3** Yn galon i'n haddoliad heddiw,  
byddwn yn cymryd bara a gwin,  
byddwn yn gofyn am fendith  
gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri'r  
bara, ac — fel aelodau o Gorff toredig,  
trwsiedig Crist — byddwn yn Cymuno.

**4** Daw ein haddoliad i ben wrth  
inni dderbyn bendith Duw, yn  
gynhaliaeth inni wrth ymadael.

Waeth pa mor bell yn ôl y  
gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae  
croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os  
hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf,  
neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag  
aelod o dîm yr Gadeirlan.

Ceir ffydd, gobaiith a chariad yma i  
bawb.

## Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llur' nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✠. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

## Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copiâu print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

## Plant a theluoedd ifanc

Ceir gweithgareddau a chrefftau yn ystod y Cymun Bendigaid ar Gân bob dydd Sul yng Nghapel Mair, ar gyfer unrhyw blant hyd at 11 oed. Mae'r crefftau a'r gweithgareddau yn amrywiol, gydag o leiaf un yn ymwneud â themau'r Cymun ei hun. Caiff y gofod hwn yn cael ei staffio gan oedolion cyfrifol, a bydd plant dros 5 oed yn gallu mynd a dod. Bydd plant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni neu eu gwarcheidwaid bob amser. Yn y lle cyntaf, dylai plant sy'n 4 oed ac iau fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad oni bai bod trefniant ymlaen llaw gyda'r rhai ar ddyletswydd wedi'i wneud.

## O'r Ddarllenfa a Buchedd Bangor

Pob wythnos, anfonir ebost **O'r Ddarllenfa** at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Os nad ydych chi eisoes yn danysgrifiwr, dilynwch y cod QR, neu ewch i **cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/**

**Buchedd Bangor** yw ein cylchgrawn rheolaidd, sy'n cynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.


### Buchedd Bangor



### O'r Ddarllenfa From the Lectern



# Trefn y gwasanaeth



Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch



# Cynnull

Emyn



**D**rwy'r goruchelder, mawl i Dduw,  
a thrwy'r dyfnderau maith;  
yn ei holl ffyrdd mor sicr yw,  
a rhyfedd yn ei waith.

**O! fawr ddoethineb Cariad Duw!  
Tra'r byd mewn nos ddi-wawr, -  
daeth Adda'r Ail i'r dyfnder du  
i wared llwch y llawr.**

**O! Gariad doeth, – i gig a gwaed  
yn Adda aeth i lawr,  
ymadnewyddu'n gryf drachefn  
a choncro'r gelyn mawr.**

**Drwy'r goruchelder Mawl i Dduw,  
a thrwy'r dyfnderau maith;  
yn ei holl ffyrdd mor sicr yw,  
a rhyfedd yn ei waith.**

**Geiriau**  
John Henry Newman (1801-1890)  
**Efelychiad**  
John Thomas Job (1867-1938)  
**Cerddoriaeth | "Gerontius"**  
John Bacchus Dykes (1823-1876)

Parhawn ar ein traed tan ddiwedd y Weddi Gasgl

## Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

**Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

"Pan adfer y Sanctaidd Un lwyddiant inni, fe lawenha Jacob, fe orfoledda Israel."

## Cyffes

Gan gynnull i ddathlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw, ymbaratown gan gyffesu ein pechodau,

ni sy'n methu â gweld arllwysiad calon Duw  
mewn cread, cymuned a chymydog;  
ni sy'n methu â dilyn Crist yn ein calonnau  
mewn gweddi, defosiwn a chariad allblyg.  
ni, er ymhell, y dygir ein calonnau i goflaid Duw  
drwy air, sagrafen a gras.

Cyd-weddiwn.

**Dad nefol,  
yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,  
a heb wneud yr hyn a ddylem.**

**Mae'n wir ddrwg gennym,  
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.**

**Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,  
maddeua inni'r cwbl a aeth heibio  
ac arwain ni yn ei ffordd ef  
i gerdded fel plant y goleuni.**

**Amen.**

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthyich,

✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,  
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.

**Amen.**

Parhawn ar ein traed

## Kyrie eleison

Kyrie eleison. Christe eleison. Kyrie eleison.

### **Cyfieithiad**

*Arglwydd trugarha. Crist trugarha. Arglwydd trugarha.*

### **Cerddoriaeth**

**Offeren Fer**, Dilys Elwyn-Edwards (1918-2012)

Parhawn ar ein traed

## Gweddi Gasgl

Gweddiwn.

**O**Dduw, cadw dy Eglwys â'th drugaredd gwastadol; a channa ddichon ein gwendid hebot ti ond syrthio, cadw ni byth trwy dy gymorth oddi wrth bob peth niweidiol, ac arwain ni at bob peth buddiol i'n hiachawdwriaeth; trwyddo ef sy'n Grist ein Gwardedwr.

**Amen.**

Eisteddwn



Darlleniad o Lyfr Genesis.

**Y**n y dyddiau hynny: Clywodd y gŵr a'r wraig sŵn y Bythol Dduw yn rhodio yn yr ardd gyda hwyr y dydd, ac ymguddiodd y dyn a'i wraig o olwg y Bythol Dduw ymysg coed yr ardd. Ond galwodd y Bythol Dduw ar y dyn, a dweud wrtho, "Ble'r wyt ti?" Atebodd yntau, "Clywais dy sŵn yn yr ardd, ac ofnais oherwydd fy mod yn noeth, ac ymguddiais." Dywedodd y Bythol Dduw, "Pwy a ddywedodd wrthyt dy fod yn noeth? A wyt ti wedi bwyta o'r pren y gorchmynnais iti beidio â bwyta ohono?" A dywedodd y dyn, "Y wraig a roddaist i fod gyda mi a roes i mi o ffrwyth y pren, a bwyteais innau." Yna dywedodd y Bythol Dduw wrth y wraig, "Pam y gwnaethost hyn?" A dywedodd y wraig, "Y sarff a'm twyllodd, a bwyteais innau." Yna dywedodd y Bythol Dduw wrth y sarff: "Am iti wneud hyn, yr wyt yn fwy melltgedig na'r holl anifeiliaid, ac na'r holl fwystfilod gwyllt; byddi'n ymlusgo ar dy dor, ac yn bwyta llwch holl ddyddiau dy fywyd. Gosodaf elyniaeth hefyd rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy had di a'i had hithau; byddant hwy yn ysigo dy ben di, a thithau'n ysigo'u sodlau hwythau."

Clywch air bywyd i'n byd.

**Diolch a fo i Dduw.**

Genesis 3:8-15



## Salmyddiaeth



☩ Mawr fydd llawenydd Jacob wiw,  
bydd Israel Duw'n crechwennu.

**℞ Mawr fydd llawenydd Jacob wiw,  
bydd Israel Duw'n crechwennu.**

Dywed yr ynyfd yn ei galon, "Nid oes Duw." Gwnânt weithredoedd llygredig a ffaidd; nid oes un a wna ddaioni.

Edrychodd y Sanctaidd Un o'r nefoedd ar ddynolryw, i weld a oes rhywun yn gwneud yn ddoeth ac yn ceisio Duw.

**℞ Mawr fydd llawenydd Jacob wiw,  
bydd Israel Duw'n crechwennu.**

Ond y mae pawb ar gyfeiliorn, ac mor llygredig â'i gilydd; nid oes un a wna ddaioni, nac oes, dim un.

Oni ddarostyngir y gwneuthurwyr drygioni sy'n llyncu fy mhobl fel llyncu bwyd, ac sydd heb alw ar Duw?

**℞ Mawr fydd llawenydd Jacob wiw,  
bydd Israel Duw'n crechwennu.**

Yno y byddant mewn dychryn mawr, am fod Duw yng nghanol y rhai cyfiawn. Er i chwi watwar cyngor yr anghenus, y Sanctaidd Un yw ei noddfa.

O na ddôi gwardigaeth i Israel o Seion! Pan adfer y Sanctaidd Un lwyddiant inni, fe lawenha Jacob, fe orfoledda Israel.

**℞ Mawr fydd llawenydd Jacob wiw,  
bydd Israel Duw'n crechwennu.**

Salm 14  
Cerddoriaeth  
Simon Ogdon

### Hyn sy'n fawl

Euros Bowen

Dechreuodd Euros Bowen (1904-1988) ysgrifennu barddoniaeth o ddifrif pan gafodd ei gaethiwo yn Rheithordy Llangywer gan eira mawr gaeaf 1947. Gwasanaethodd fel Rheithor Llangywer a Llanuwchllyn, ger y Bala, am bron iawn y cyfan o'i weinidogaeth fel offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru. Yn ogystal â'i farddoniaeth, mae'i waith llenyddol yn cynnwys cyfieithiadau i'r Gymraeg o glasuron Lladin a Groeg a gwaith gan y Symbolwyr Ffrengig.

Clywais droeau yn fy nydd ar fore a nawn  
alwad y ceiliog bronfraith  
ar frigyn ucha'r pren,  
trebl y nant yn unigedd  
ceulannau'r waun a'r wern,  
baban yn chwerthin parod  
wrth gael ei draed ar y sarn  
a thrwst digrifwch plant  
hyd weirgloddiau'r llan:  
A chyda chilio'r wennol  
draw i ddeau wlad,  
ar ôl y nythu dyfal,  
gwelais ddadfail haf  
fel mesen yn treiglo'n euraid  
i gysgod derw'r tir,  
neu wên yr ymadawedig  
cyn ei roi i'r pridd. –  
Bywyd nid ydyw'n marw. Hyn sy'n fawl.

Cynthia a Saunders Davies (gol.), **Euros Bowen: Bardd-Offeiriad**  
(Gwasg yr Eglwys yng Nghymru, 1993)  
Hawlfraint Gwasg yr Eglwys yng Nghymru

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efengylau yng Nghorff yr Eglwys



**Y** Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. **R** Haleliwia. Haleliwia.  
**Haleliwia.** **Y** Pan adfer y Sanctaidd Un lwyddiant inni, fe lawenha Jacob, fe orfoledda Israel. **R** Haleliwia. Haleliwia.  
**Haleliwia.** **Y** Gwaeddodd Iesu at y bobl: "Y sawl sydd â chlustiau ganddo i wrando, gwrandawed." **R** Haleliwia.  
**Haleliwia. Haleliwia.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Luc.

**Gogoniant i ti, O Grist.**

**B**ryd hynny: Yr oedd tyrfa fawr yn ymgynnull, a phobl o bob tref yn dod Iesu. Dywedodd ef ar ddameg: "Aeth heuwr allan i hau ei had. Wrth iddo hau, syrthiodd peth had ar hyd y llwybr; sathrwyd arno, a bwytaodd adar yr awyr ef. Syrthiodd peth arall ar y graig; tyfodd, ond gwywodd am nad oedd iddo wlybaniaeth. Syrthiodd peth arall i ganol y drain; tyfodd y drain gydag ef a'i dagu. A syrthiodd peth arall ar dir da; tyfodd, a chnydiodd hyd ganwaith cymaint." Wrth ddweud hyn fe waeddodd, "Y sawl sydd â chlustiau ganddo i wrando, gwrandawed." Gofynnodd ei ddisgyblion iddo beth oedd ystyr y ddameg hon. Meddai ef, "I chwi y mae gwybod cyfrinachau teyrnas Dduw wedi ei roi, ond i bawb arall y maent ar ddamhegion, fel 'er edrych, na welant, ac er clywed, na ddeallant'. "Dyma ystyr y ddameg. Yr had yw gair Duw. Y rhai ar hyd y llwybr yw'r sawl sy'n clywed, ac yna daw'r diafol a chipio'r gair o'u calonnau, rhag iddynt gredu a chael eu hachub. Y rhai ar y graig yw'r sawl sydd, pan glywant, yn croesawu'r gair yn llawen. Ond gan y rhain nid oes gwreiddyn; dros dro y credant, ac mewn awr o brawf fe wrthgylant. Yr hyn a syrthiodd ymhlith y drain, dyma'r sawl sy'n clywed, ond wrth iddynt fynd ar eu hynt cânt eu tagu gan ofalon a golud a phleserau bywyd, ac ni ddygant eu ffrwyth i aeddfedrwydd. Ond hwnnw yn y tir da, dyna'r sawl sy'n clywed y gair â chalon dda rinweddol, yn dal eu gafael ynddo ac yn dwyn ffrwyth trwy ddyfalbarhad."

Dyma Efengyl ein Gwaredwr.

**Moliant i ti, O Grist.**

## Pregeth yn y gyfres “Duw newydd digyfnewid”

“Rwy’n fwyfwy argyhoeddedig mai’r ffordd orau o ddiwinydda yw barddoni,” meddai’r diwinydd a’r hanesydd, Diana Butler Bass, yn ddiweddar. Mae hi’n ein cyfeirio at yr her o sôn am y Duw anweledig mewn ffyrdd sy’n anrhydeddu dirgeledd Duw, a thuag at y gwirionedd mai mewn barddoniaeth y mae beirdd, emynwyr, pregethwyr a holl bobl Dduw yn aml wedi dod agosaf at ganfod mewn geiriau’r harddwch, y gwirionedd a’r cariad y mae’r enaid yn ei gaffael yn Nuw. Wrth i ni gamu tuag’r Wythnos Fawr a llawenydd dwfn y Pasg, bydd cerdd i gyd-fynd â’n darlleniadau Beiblaidd pob Sul, a bydd ein pregethau’n ein dwyn i ddirgeledd y farddoniaeth, er mwyn ein dwyn hefyd i goflaid dirgeledd Duw. Canys, fel y dywed yr offeiriad a’r llenor, Mark Oakley, “Y mae Duw yn y byd hwn fel y mae barddoniaeth yn y gerdd.”

### Y Canon dros Fywyd Cynulleidfaol

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed

## Credo

Ar y cyd, gadewch inni gadarnhau ein ffydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,  
a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,  
a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,  
sy’n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,  
✠ Dad, Mab ac Ysbryd Glân.  
Amen.**

## Ymbiliau

Gyda'n holl galon a'n holl feddwl gweddiwn ar Dduw.

Eisteddwn neu benliniwn

Defnyddiwn yr ymatebion

Y O Dduw, yn dy drugaredd,

R **Gwranddo ein gweddi.**

Y Gorffwys tragwyddol dyro iddynt, O Dduw.

R **A llewyrched goleuni gwastadol arnynt.**

Y ✕ Gorffwysed hwy mewn tangnefedd.

R **A chyfodi mewn gogoniant.**

Y Dad trugarog,

R **Derbyn y gweddiau hyn**

**er mwyn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist.**

**Amen.**

Codwn ar ein traed, a gwneir Casgliad yn ystod yr emyn

# Cymun

Eryn

The image shows a musical score for the song 'Cymun'. It consists of six staves of music, all in treble clef. The key signature is one sharp (F#), and the time signature is 3/4. The melody is written on the first staff, and the accompaniment is written on the remaining five staves. The music features a mix of eighth and quarter notes, with some beamed eighth notes and quarter rests. The piece concludes with a double bar line and repeat dots.

**O** canwch i'r Arglwydd gân newydd, ei seintiau,  
ym mrenin a chreuwyr y byd, llawenhewch!  
A molwch ei enw â dawnsio a chanu,  
â thympan a thelyn addolwch, mwynhewch!  
Oherwydd mae Duw wrth ei fodd gyda'i bobol,  
mae'n rhoi gwardedigaeth i'r eiddil a'r gwan,  
O canwch i'r Arglwydd gân newydd, ei seintiau,  
yng nghanol ei holl bobol ffyddlon, rhowch gân.

**O canwch i'r Arglwydd gân newydd, ei seintiau,  
O bydded i holl blant ein Duw lawenhau  
a dathlu ogoniant ein Duw mewn gorfoledd  
a chanu yn llawen fin nos ar eu gwllâu.  
â mawl yn eu genau, a chleddyf daufiniog  
fe rwymwyd y gelyn mewn cadwynau cry',  
O canwch i'r Arglwydd gân newydd, ei seintiau,  
ef yw ein gogoniant: O molwch Duw fry!**

**Geiriau**  
Salm 149  
**Efelychiad**  
Cass Meurig  
**Cerddoriaeth | "Llwyn Onn"**  
Alaw werin Gymreig

Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

## Offrwm

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.

**Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.**

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneiddio.

**Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.**

## Gweddi Ewcharistaidd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Dyrchefwch eich calonnau.

**Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.**

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

**lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.**

lawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Gan mai ef yw ein harchoffeiriad mawr, a'n rhyddhaodd o'n pechodau ac a'n gwnaeth yn offeiriadaeth frenhinol yn dy wasanaethu di, ein Duw a'n Tad.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanct, Sanct, Sanct Arglwydd Dduw'r lluoedd, Nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Gogoniant a fo i ti, O Arglwydd goruchaf.

✠ Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchafion.

#### **Cerddoriaeth**

**Offeren Fer**, Dilys Elwyn-Edwards (1918-2012)

#### **Parhawn ar ein traed**

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwytwch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠

Gadewch inni gyhoeddi dirgeledd y ffydd:

**Bu farw Crist.**

**Atgyfododd Crist.**

**Daw Crist mewn gogoniant.**

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deunw â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.



Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewyddu ni a phawb y gweddiwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.

✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

## Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

**E**in Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. **Amen.**

## Tangnefedd

Bydd dy iachád yn ffynnu'n ein calonnau; dy gyfiawnder yn mynd o'n blaenau â'th gorff torredig yn gyflawn mewn tangnefedd.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.

**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Rhannwn arwydd o Dangnefedd.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn

## Torri

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dy dangnefedd.

**Cerddoriaeth**

**Offeren Fer**, Dilys Elwyn-Edwards (1918-2012)

## Cymuno

✠ Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.  
Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.

**Waredwr, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,  
ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

Deuwn i Gymuno, gan ddilyn cyfarwyddyd y Stiwardiaid, o'r Afrlladen Sagrafennol ac, os y dymunwn, o'r Gwerthfawr Waed

## Motét

Cenwch lafar gân i'r Arglwydd Duw, wledydd byd. Dewch dan lawen floeddio, plygwch lin o'i flaen ef dan ganu. Ef, chwy wyddoch, ef sydd yn Dduw; nid ni greodd ni'n hunain, ond ef a'n gwnaeth ni; ei bobl ef ym ni a phreiddiau ei borfa. O dewch i mewn i'w byrth gyda diolch, i gyntedd ei dŷ â mawl: rowch ddiolch iddo ef, bendithiwch Dduw. Canys da yw'r lôr; ei ras sydd o dragwyddoldeb, ac fe saif gwirionedd gwyfol trwy yr oesau. Boed gogoniant i'n Harglwydd, ac i'w Fab, ac i'r Ysbryd Glân; fel yr oedd yn y dechreuad, y mae ac y bydd hyd byth, i barhau mwy. Amen.

### Geiriau

Salm 100

### Efelychiad

Gwilym Henry Jones

### Cerddoriaeth

Dilys Elwyn-Edwards (1918-2012)

Ar ôl i bawb Gymuno, safwn i ganu'r emyn

## Emyn

The image shows a musical score for the hymn 'Cymuno'. It consists of four staves of music in G major (one flat) and 3/4 time. The first staff begins with a treble clef and a 3/4 time signature. The melody is written in a simple, hymn-like style. The second staff features a triplet of eighth notes. The third and fourth staves continue the melody with various note values and rests. The score ends with a double bar line.

**M**ewn 'stad o ddiniweidrwydd da,  
tra bu'n tad Adda, llwyddodd;  
bwytaodd y ffrwyth oedd Duw'n wahardd,  
a'i enaid hardd a lygrodd.

Nawr cnawdol genir ni i gyd,  
ar ddrwg mae'n bryd yn gwbl;  
ein rheswm colli'i iawn le wnaeth,  
aeth cnawd yn gaeth a'r meddwl.

Duw'r gallu, adnewyddu'n dull,  
adfera'n candryll bwerau;  
ac ennyn ynom nefol dân,  
i losgi'n lân ein chwantau.

'Sgrifena'th gyfraith lân, O Dduw,  
ar ein tufewnol rannau;  
a thynned Adda'r ail, ein câr,  
ei ddelw ar ein c'lonnau.

**Geiriau**

Isaac Watts (1674-1748)

**Cyfieithiad**

Dafydd Jones (1711-1777)

**Cerddoriaeth | "St Columba"**

Hen alaw Wyddeleg

Parhawn ar ein traed

# Ymadael

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

**Y**n nyddiau eich trallod, yn nyddiau eich llawenydd, ac ar ddydd y farn, arbeded Dduw chi; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

**Amen.**

Awn ymaith mewn tangnefedd.

**Yn Enw Crist. Amen.**

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael; yna eisteddwn neu ymadael

**Offrymddarn ar yr organ**

**Ffiwg yn B leiaf, BWV544ii**, Johann Sebastian Bach (1685-1750)

# Cerddi ein cyfres bregethu


Wrth i ni gamu tuag'r Wythnos Fawr a llawenydd dwfn y Pasg, mae cerdd i gyd-fynd â'n darlleniadau Beiblaidd pob Sul.

Beth am fynd â'r llyfryn hwn adref gyda chi, ac ailymweld â'r gerdd yn ystod yr wythnos. Darllenwch hi yn dawel, neu ar lafar, efallai fwy nag unwaith.

# Cwestiynau ar ôl darllen cerdd

- 1** Beth a'ch trawodd gyntaf pan oeddech chi'n darllen y gerdd? Beth oedd yn neidio allan atoch chi?
- 2** Beth wnaethoch chi weld, blasu, clywed, ogleuo a chyffwrdd?
- 3** Pa ran o'r gerdd oedd yn ennyn eich diddordeb neu a oedd yn ddyrys i chi?
- 4** Pa emosiynau ydych chi'n eu gweld yn y gerdd?
- 5** Sut mae'r gerdd yn gwneud i chi deimlo? Beth yn y gerdd a ddaeth â chysur i chi? Beth yn y gerdd a'ch heriodd?
- 6** A oedd y gerdd yn eich cysylltu â rhywbeth o bwys? Beth yw'r neges yn y gerdd i chi?

# Hysbys



## Buchedd Bangor

Mae rhifyn newydd **Buchedd Bangor** yn cynnig cymysgedd o ddeunydd defosiynol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd.

## Dydd Mercher y Llundw

Dydd Mercher y Llundw, 22 Chwefror, yw dechrau'r Grawys. Dethlir dau Gymun Bendigaid ar Gân yn ddwyieithog yn y Gadeirlan am 12.30pm a 6.00pm, pan y bydd y Canon dros Fywyd Cynulleidfaol yn pregethu. Caiff lludw ei arddodi yn y ddau wasanaeth. Mae Dydd Mercher y Llundw yn ddiwrnod arwyddocaol a sanctaidd yn y flwyddyn Gristnogol. Gwnewch bob ymdrech i fod yn bresennol yn un o'r ddau wasanaeth.

## Cymanfa Gŵyl Ddewi

Byddwn yn dathlu gŵyl ein nawddsant cenedlaethol gyda Chymanfa yn y Gadeirlan am 6pm. Bu ein gwasanaethau Naw Llith a Charol yng ngolau cannyll yn ystod yr Adfent a'r Nadolig yn achlysuron hynod boblogaidd a theimladwy. Gwnewch bob ymdrech i nodi'r diwrnod pwysig hwn drwy addoliad yn y Gadeirlan.

## Clwb Cwyr y Gysegrfa

Mae criw bychan, wedi ei gynnull gan un o Ysgolheigion y Gân, Aine Guy, am gwrdd cyn y Grawys ac eto cyn y Pasg i loywi llestri a chanwyllbrennau arian a phres y Gaderilan. Cynhelir

y cyfarfod cyntaf yn Gadeirlan am 11am ddydd Gwener 17 Chwefror, gan orffen mewn pryd ar gyfer y Cymun dyddiol am 12.30pm. Bydd cwyr, cadachau, menig, te a choffi yn cael eu darparu! Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno, ac mae Aine yn hapus i ddarparu rhagor o fanylion ar [aine.guy@btinternet.com](mailto:aine.guy@btinternet.com).

## Trwyddedau parcio

Mae trwyddedau parcio 2023 nawr eu hangen ar gyfer defnyddio maes parcio'r Gadeirlan ar ddiwrnodau heblaw dydd Sul. Maent ar gael wedi gwasanaethau heddiw. Gwerthfawrogir cyfraniad rhodd hael tuag at gronfeydd y Gadeirlan.

## Datganiadau Paned

Pob dydd Iau

11.15am am 45 munud

Paned a chacen o 10.45am

## 16 Chwefror | Joe Cooper | Bas

Mae'r Cyfarwyddwr Cerdd, Joe Cooper, yn dangos ei lais gyda datganiad caneuon bas, gan gynnwys y *Caneuon Olaf* gan Ralph Vaughan Williams ac ariâu o *Ddiodeffaintau* Bach.

## 23 Chwefror | Sam a Christina Hutchinson-Rogers | Clarinét a Ffliwt

Mae'n Coryddion Sam a Christina yn cyflwyno datganiad hanner-tymor yn dangos eu sgiliau ar eu hofferynnau eraill, gan gynnwys perfformiad o'r *Concerto i'r Clarinet* gan Mozart.

# Yr wythnos

## Heddiw | Today

**3.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Rose; Gwasanaeth Hwyl yn A | Evening Service in A, Stanford; The Heavens are Telling, Haydn; Ffiwg o | Fugue from Sonata III, Rheinberger

## Dydd Llun | Monday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Mawrth | Tuesday

**9.00am** Camau Bach

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Mercher | Wednesday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**8.00pm** Gwylnos | Vigil

## Dydd Iau | Thursday

**11.15am** Datganiad | Recital

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**2.00pm** | **Eglwys y Groes** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Gwener | Friday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## Dydd Sadwrn | Saturday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## 12 Chwefror | Y Sul cyn y Garawys | 12 February | The Sunday next before Lent

**8.15am** Holy Eucharist

**9.15am** Cymun Bendigaid ar Gân

Cymun yn C | Communion Service in C, Mathias; Yr Alwad, Vaughan Williams; Postliwd, Mathias

**11.00am** Choral Holy Eucharist

Coronation Mass, Mozart; A new-created World, Haydn; Cantique, Elgar

**3.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Smith; Gwasanaeth Hwyl yn A fflat | Evening Service in A flat, Harwood; Postliwd yn D fwyaf | Postlude in D major, Bach

---

# Ein gweddi

**Ein cymuned** Cymunedau Syriaidd a Thwrciaidd Bangor

**Ein hesgobaeth** Ardal Weinidogaeth Bro Peblig

**Yn glâf** Joy Levine, offeiriad; John Watkin Jones; Caitriona Carroll; Jennifer Colman; Clare Jones; Robbie Ross; Carole Watson; Fiona Cain; Siân Furlong-Davies

**A fu farw'n ddiweddar** Beatriz de Jesus; Colin Bowes; Allan Bowes; Agnes Camm; Susan Greenwood

**Gŵyl goffa** Beryl Williams (13); Claire Jamset (13)

## Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

## Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

## Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004. Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Mae delwedd y clawr yn ystod tymor of Gesimáu a'r Grawys yn ffotograffau gan y ffotograffydd lleol ac un o gyfeillion y Gadeirlan, Dave Custance.

## Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol

### Deiniol Sant ym Mangor

## The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Esgob ac Archesgob Cymru  
**Y Parchediac Andrew T. G. John**  
Bishop & Archbishop of Wales

**The Most Rev Andrew T. G. John**

Is-Ddeon | Sub-Dean

**Canon Siôn B. E. Rhys Evans**

sionrhys-evans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fywyd Cynulleidfaol

Canon for Congregational Life

**Canon Tracy Jones**

tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd | Director of Music

**Joe Cooper**

joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd | Organist

**Martin Brown**

martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinidog Teulu | Family Minister

**Naomi Wood**

naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk

Clerc y Cabidwl | Chapter Clerk

**Robert Jones**

robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cwstos | Custos

**Simon Taylor**

simontaylor@eglwysyngnghymru.org.uk

Trysorydd | Treasurer

**Kelly Edwards**

kellyedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinyddwr Liturgi | Liturgy Administrator

**Sam Jones**

samjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Rheolwr Prosiect Cadwraeth a Datblygu

Conservation & Development Project Manager

**Simon Ogdon**

simonogdon@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Secundus

**Canon David Thomas Morris**

davidmorris@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritus | Canon Emeritus

**Canon Angela Williams**

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan

Members of the Cathedral's College of Priests

**Y Parchg Ddr | The Revd Dr John Prysor-Jones,**

**y Tra Pharchg Athro | the Very Revd Prof.**

**Gordon McPhate, y Parchg | the Revd Peter**

**Kaye**

Darllenydd | Reader

**Elma Taylor**

Pensaer y Gadeirlan | Cathedral Architect

**Simon Malam**

Rhif elusen | Charity number 1158340

## Cefnogaeth

Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.

**1** I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganwch y cod QR isod.

**2** Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswilt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio cerdyn neu ffôn.

Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.

